WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Jeremy Patterson
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 606A2012 |
| **Dyddiad** | 17 Rhagfyr 2012 |
| **Tudalennau** | **1** o **6** |

Annwyl Jeremy

## Llythyr Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o'm gwaith mewn perthynas ag adrodd ar welliannau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).
Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Sir Powys (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 19 Medi 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliant;
- fy sylwadau, a sylwadau rheoleiddwyr perthnasol, ar i ba raddau y gellir dibynnu ar hunanwerthusiad y Cyngor; a
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymellion.

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn trwy:

- adolygu *Cam 2 Cynllun Newid Powys ar gyfer 2011-12* (Adroddiad Perfformiad), a gynhyrchwyd ac a gyhoeddwyd gan y Cyngor erbyn 31 Hydref 2012, lle adroddwyd ar ei berfformiad o ran cyflawni ei feysydd gwella allweddol;
- cynnal cyfweliadau â rheolwyr ac adolygu dogfennau ategol mewn sampl o'r meysydd gwasanaeth sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad; a
- phrofi dibynadwyedd sampl o ddangosyddion perfformiad.

Byddaf hefyd yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Trwy gyhoeddi'r Adroddiad Perfformiad erbyn y dyddiad cau ar 31 Hydref 2012, mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol a amlinellwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Mesur, o dan Adran 15 (7).

Mae'r Adroddiad Perfformiad wedi'i gynllunio a'i drefnu'n dda ac yn rhesymol o ran hyd, ac mae'n amlinellu perfformiad y Cyngor yn erbyn yr holl ddangosyddion statudol, gan gynnwys ffigurau perfformiad y flwyddyn bresennol a'r flwyddyn flaenorol. Mae perfformiad yn erbyn targedau a chymhariaeth â chyfartaledd Cymru wedi'u cynnwys hefyd. Mae i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyflawni gwaith cydweithredol a phartneriaeth i'w helpu i gyflawni ei flaenoriaethau yn cael ei esbonio'n glir mewn perthynas â'r hyn sydd wedi'i gyflawni a'r hyn sydd angen ei wneud o hyd. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at y Cytundeb Canlyniadau a'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni trwy'r cynllun Powys yn Un. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys ymateb y Cyngor i'r argymhellion statudol a nodwyd yn fy adroddiadau gwella blynyddol yn 2011 a 2012 ac i adroddiadau arolygu Swyddfa Archwilio Cymru/AGGCC ar ofal cymdeithasol i oedolion.

Gallai perthnasedd dangosyddion statudol i gynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella gael ei esbonio'n well trwy nodi sut maent yn berthnasol i amcanion gwella penodol, ac nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn nodi'n glir y prosesau mae'r Cyngor wedi'u defnyddio i gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i sicrhau gwelliant parhaus. Wrth asesu ei gyflawniadau trwy gydweithredu, gallai'r Cyngor gael a chynnwys adborth gan bartneriaid.

Mae'r Adroddiad Perfformiad ar gael ar wefan y Cyngor yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac fe'i cyhoeddwyd law yn llaw â datganiad i'r wasg. Mae copïau caled ar gael yn y prif adeiladau cyhoeddus a rhoddir cyhoeddusrwydd iddynt ym mhapur newydd y Cyngor, *Barcud Coch*, a ddosberthir i bob cartref.

## Er bod Adroddiad Perfformiad y Cyngor wedi gwella o gymharu â blynyddoedd blaenorol, nid yw'n darparu asesiad dibynadwy na gwerthusiad ystyrlon o berfformiad y Cyngor o ran cyflawni yn ei feysydd gwella allweddol

Erbyn hyn, mae'r Mesur wedi bod ar waith ers tair blynedd. Dyma'r ail flwyddyn y mae'r Cyngor wedi gorfod cyhoeddi Adroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl yn unol â gofynion y Mesur. Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Ionawr 2012, pwysleisiais fod y Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau fod yn fwy hunan-feirniadol a gwerthusol wrth ddarparu eu gwasanaethau a bod angen i gynghorau ganolbwyntio'n llawer mwy eglur ar effaith gwasanaethau ar ddinasyddion a'r canlyniadau i ddinasyddion.

Mae fy archwiliad o hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2011-12 wedi dod o hyd i dystiolaeth bod y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella a amlinellwyd yn fy adroddiadau blaenorol, er bod angen gwneud mwy o waith o hyd. Ar y cyfan, mae ansawdd hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad o ran cyflawni yn ei feysydd allweddol ar gyfer gwella wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rwyf wedi amlinellu (uchod) elfennau cadarnhaol o Adroddiad Perfformiad y Cyngor ac ym mha feysydd y mae angen gwneud mwy i gydymffurfio'n llawn â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## Er ei fod yn fwy cytbwys nag mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Adroddiad Perfformiad yn dal i roi darlun rhy gadarnhaol i ddinasyddion o berfformiad y Cyngor ac nid yw'n nodi beth mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol i fynd i'r afael â thanberfformiad

Mae fframwaith clir ar gyfer monitro perfformiad ar waith ond, er bod data perfformiad yn cael ei adrodd yn eang, nid yw'n cael ei integreiddio'n ddigonol mewn gwaith cynllunio gwelliant ac adrodd ar welliant. Yn ogystal, prin iawn yw'r dystiolaeth i ddangos bod y Cyngor yn gwneud defnydd da o'r data hwn i herio perfformiad neu i benderfynu beth sydd angen iddo ei wneud yn wahanol er mwyn gwella.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio cynnydd yn erbyn camau gweithredu allweddol a dulliau meintiol ac ansoddol o fesur perfformiad fel y brif dystiolaeth i hunan-asesu ei berfformiad. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth o wahanol ffynonellau, ac mae'n fwy hygyrch nag adroddiad y llynedd. Fodd bynnag, mae yna orddibyniaeth ar adrodd yr hyn mae'r Cyngor wedi'i wneud yn hytrach na'r gwahaniaeth mae hyn yn ei wneud, ac nid yw'r targedau a osodir yn cyflwyno her gyson. Nid yw adran naratif yr asesiad bob amser yn adrodd ar gynnydd mewn perthynas â'r targedau a osodwyd, sy'n ei gwneud hi'n anodd i farnu a yw'r cynnydd yn rhesymol neu'n unol â'r hyn a gynlluniwyd.

Er ei fod yn fwy cytbwys nag mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Adroddiad Perfformiad yn dal i gyfleu'r cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud mewn goleuni cymharol ffafriol, er enghraifft, trwy eiriau a ddewiswyd yn ofalus, y targedau a osodir ac i ba raddau y gellir gwyro oddi wrthynt. Er y nodir rhai meysydd o danberfformiad, yn aml cânt eu glastwreiddio gan gyfeiriadau at 'newyddion da' neu eu disgrifio mewn termau amwys. Nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn ymhelaethu ar yr hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol i fynd i'r afael â meysydd o danberfformiad.

### Nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn rhoi darlun cydlynol i ddinasyddion o gynnydd y Cyngor o ran cyflawni ei feysydd gwella allweddol

Nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys hunanwerthusiad cadarn o farn y Cyngor ynglŷn â pha mor dda mae'n perfformio o ran cyflawni ei amcanion gwella. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen i greu trosolwg o'r cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud yn rhanedig yn yr Adroddiad Perfformiad, ac nid yw'r wybodaeth honno wedi'i chyfuno'n ddigonol i greu gwerthusiad cydlynol.

Rwyf wedi ystyried barn rheoleiddwyr eraill ar ddibynadwyedd trefniadau hunanwerthuso'r Cyngor, ac mae'r rhain yn dangos cryn anghysondeb mewn perthynas ag arferion y Cyngor. Nododd AGGCC yn ei Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad Perfformiad 2011-12 fod llythyr y Cyfarwyddwr yn rhoi darlun cynhwysfawr o berfformiad y cyngor a bod y dystiolaeth a ddarparwyd gan y cyngor i gefnogi ei werthusiad yn glir.

Fodd bynnag, wrth gofnodi canlyniadau ymweliad monitro a gynhaliwyd ym mis Hydref 2012, nododd Estyn nad yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer hunanarfarnu'n ddigon trylwyr. Mae hyn yn golygu bod diffygion a heriau pwysig yn y gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn cael eu colli. Nid yw'r awdurdod yn hunanarfarnu'n effeithiol, ac ni all felly ddefnyddio hunan wybodaeth i gynllunio ar gyfer gwella. Mae'r gwendidau yn yr hunanarfarnu ar lefel gorfforaethol yn cael eu hadlewyrchu ar lefel gwasanaethau hefyd. O ganlyniad, mae'r hunanarfarniad a ddarparwyd i'r tîm, cyn yr ymweliad monitro, yn rhy gadarnhaol a disgrifiadol. Nid yw'n nodi'r diffygion a nodwyd gan y tîm arolygu na'r diffyg cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Hefyd, roedd gormod o swyddogion allweddol na chyfrannodd at baratoi'r adroddiad hunanarfarnu ac ni chafodd ei rannu â phenaethiaid na rhanddeiliaid eraill.

### Mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i raglen o newid diwylliannol er mwyn sbarduno hunanasesiad a gwerthusiad mwy agored a realistig o'i gynnydd o ran cyflawni yn ei feysydd gwella allweddol

Eleni, mae'n amlwg bod adolygiad mewnol mwy trylwyr wedi'i gynnal o'r Adroddiad Perfformiad a'i fod wedi'i herio ar wahanol lefelau, gan gynnwys y tîm uwch reoli, y cabinet a chyd-gadeiryddion craffu. Er bod hwn yn gam cadarnhaol, ni neilltuwyd digon o amser i sicrhau bod y materion a godwyd (yn enwedig y rhai a godwyd yn sgil craffu) yn cael eu hystyried a'u trafod cyn cyflwyno'r Adroddiad Perfformiad i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

Yn wir, roedd sylwadau'r gwaith craffu, a ystyriwyd gan y Cabinet wrth gymeradwyo'r Adroddiad Perfformiad ar 2 Hydref 2012, yn nodi mai ychydig iawn o wybodaeth am ganlyniadau newidiadau oedd yn y ddogfen – pa wahaniaeth mae hyn wedi'i wneud i'r cyhoedd; ac yn nodi nad oedd unrhyw sylwadau negyddol yn y ddogfen i ddarparu cydbwysedd – mae yna ormod o newyddion da. Mae'r safbwyntiau hyn yn cyd-fynd â'm canfyddiadau ar ôl adolygu'r Adroddiad Perfformiad terfynol. Byddai'r Cyngor yn elwa trwy ddefnyddio a gweithredu ar her fewnol o'r fath yn gynharach yn natblygiad ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol y flwyddyn nesaf i helpu i nodi a mynd i'r afael â'r cydbwysedd o ran cynnwys newyddion cadarnhaol yn bennaf.

Roedd hi'n galonogol gweld bod arweinwyr y Cyngor yn gweithio i hyrwyddo diwylliant sy'n gofyn am hunanasesiad mwy agored a chytbwys o'i berfformiad, ac sy'n fwy gwerthusol a realistig mewn perthynas â chyflawni ei amcanion gwella. Fodd bynnag, mae hi'n glir hefyd bod newid diwylliannol yn ei ddyddiau cynnar a bod y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau a gweithgareddau perthnasol er mwyn lleihau'r amser cyn y daw arferion yn rhan annatod o'i amcanion ac arwain at y canlyniadau dymunol.

Mae'r Cyngor wedi gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ddarparu ffynhonnell cymorth a her mewn perthynas â'i drefniadau hunan-asesu a gwerthuso a bydd fy staff yn parhau i adolygu cynnydd y Cyngor o ran datblygu ei drefniadau.

**Cynigion pellach ar gyfer gwella**

Ceir rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Ymgorffori prosesau mwy effeithiol ac amserol i herio a chraffu ar y cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud. |
| C2 | Parhau i weithio tuag at ddull mwy agored a hunanfeirniadol o berfformiad ac adrodd ar gynnydd i ddinasyddion lleol. |

Yn gywir



HUW VAUGHAN THOMAS

ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Copi: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau